



HOSPIS Tŷ'R EOS
ADRODDIAD BLYNDDOL

2021

CYSYLLTWCH Â NI



Hospis Tŷ'r Eos, Ffordd Caer,
Wrecsam, LL11 2SJ



01978 316800



info@nightingalehouse.co.uk



nightingalehouse.co.uk



nightingalehouse



nightingalehh

CYFARWYDDWYR AC YMDDIRIEDOLWYR SY'N AELODAU PWYLLGOR

Mrs Eluned Griffiths

Dr Neil Braid

Mr Andrew Morse

Mrs Joan Lowe

Dr Jenny Duguid

Mr Graham Greasley

Mrs Vicky Varley

Yr Anrhydeddus Philip Hughes

Mrs Alison Brebner

Mr Robert Cole

Mr Peter Weston

DATGANIAD CENHADAETH

Darparu gwasanaethau i unigolion a'u teuluoedd sy'n byw yng ngogledd-ddwyrain Cymru a'r gororau ac yn byw gyda diagnosis o salwch gwaethybol a / neu sy'n cyfyngu ar eu bywydau. Mae'r gwasanaethau'n cael eu darparu lle bo hynny'n bosib yn y lleoliad sydd orau gan yr unigolyn a bob amser o fewn yr adnoddau sydd ar gael i Hospis Tŷ'r Eos.

Yn dilyn asesiad o anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol ac ysbrydol y claf, mae'r gwasanaethau'n cael eu darparu gan dîm aml-ddisgyblaeth a hyfforddwyd ac sy'n gymwys i ateb anghenion ein holl gleifion, gan gynnwys rhai sydd ag anghenion cymhleth ac arbenigol.

GWELEDIGAETH

Darparu gofal rhagorol, tosturiol wedi'i bersonoleiddio i rai sy'n byw gyda salwch gwaethybol a / neu sy'n cyfyngu ar eu bywydau, yn ein cymuned, a chymorth i'w teuluoedd ac anwyliaid.


GWERTHOEDD

Mae gwerthoedd yn berthnasol i bob lleoliad a chyswllt rhwng staff a gwirfoddolwyr ac i sut yr ydym yn trin cleifion a theuluoedd a sut yr ymgysylltwm â'n sefydliadau partner, cefnogwyr a chyflenwyr. Ymdrechwn bob amser i fod yn dosturiol, cynhwysol, gonest, parchus a rhagweithiol.

EIN DALGYLCH

Mae ein siopau wrth galon ein cymuned leol ac yn gatalydd i godi arian yn llwyddiannus. Mae gennym siopau yn Wrecsam, Yr Wyddgrug, Bwcle, Whitchurch a Chroesoswallt.

Grwpiau Cymorth yw wyneb ein hospis allan yn y gymuned, gan weithio fel cenhadon dros ein hachos. Rydym yn ffodus o gael ein cynrychioli yn yr ardaloedd canlynol: Y Bala, Y Waun, Corwen, Hanmer, Coed-llai, Llangollen a'r Wyddgrug.



Hospis Tŷ'r Eos

Rhif Cofrestredig yr Elusen : 1035600 (Registered in England and Wales)

CROESO

Mae'n parhau i fod yn fraint a phleser gallu cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol hyd yn oed wrth gofio'r heriau digynsail yr ydym yn parhau i'w hwynebu o ganlyniad i'r pandemig. Er i'r cyfyngiadau gael eu codi'n raddol, roedd yr ansicrwydd yn parhau ac nid oeddem yn gallu dychwelyd yn llawn at y gwaith yr oeddem yn ei wneud cyn Covid.

Er nad oeddem yn gallu dychwelyd at ein gwaith cynhyrchu incwm arferol, fel yr adroddwyd y llynedd roedd yr arian brys gan y Llywodraeth yn parhau ynghyd â chymorth ariannol arall, gan ein helpu i gynnal ein gwasanaethau i gleifion.

Cawsom £1.3m gan Gynllun Cymorth Covid Brys Llywodraeth Cymru i Hospisau Annibynnol yng Nghymru ynghyd â £370k o dan Gynllun Cynnal Swyddi'r Trysorlys, oedd yn amhrisiadwy er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cadw ein tîm cynhyrchu incwm hynod dalentog a phrofiadol. Roedd y Rhyddhad Ardrethi Busnesau Lleol o £283k gan awdurdodau lleol Wrecsam, Sir y Fflint a Sir Amwythig wedi ein digolledu am orfod cau ein siopau hospis dros y cyfnod hwn.

Nid oedd y cymorth ariannol hanfodol hwn, er yn hynod ddiolchgar amdano, yn ddigon ar ben ei hun i gynnal ein gwasanaethau i gleifion.

Roedd ein staff codi arian di-ffyrlo'n parhau i feddwl am ddigwyddiadau rhithiol arloesol a'r mwyafrwydd oedd Adeiladu Balŵn. Mae llacio'r cyfyngiadau wedi caniatáu i ni hedfan y balŵn mewn digwyddiadau ar draws y wlad, i hyrwyddo a chodi arian i'r hospis.

Cawsom gefnogaeth aruthrol gan ein cymuned hefyd. Mae unigolion a grwpiau teuluol wedi parhau i godi arian drwy drefnu amrywiaeth o weithgareddau o'u cartrefi eu hunain. Rydym yn hynod ffodus bod gennym gefnogwyr mor drwm ac ymroddedig oherwydd hebddynt ni fyddem wedi gallu goroesi'r flwyddyn cystal a sicrhau bod ein gwasanaethau i gleifion yn parhau.

Mae misoedd olaf y flwyddyn wedi ein gweld yn dychwelyd yn raddol at ddigwyddiadau codi arian ac agor ein siopau a'n caffis. Fodd bynnag, bydd yn gryn amser cyn i'n lefelau incwm ddychwelyd i'r hyn oeddent cyn y pandemig.

Ni allwn bwysleisio digon ein bod yn hospis elusennol annibynnol a'i bod felly'n eithriadol bwysig i ni adfer ein ffynonellau incwm o gofio bod y cymorth ariannol brys yn dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon.

Mae ymroddiad ein staff clinigol yn parhau a chroeso mawr wedi bod i lacio'r cyfyngiadau ar gyfer cleifion, ymwelwyr, staff a gwirfoddolwyr.

Mae newidiadau wedi bod i'n staff clinigol uwch o ganlyniad i ymddeol a newidiadau gyrra. Roeddem yn ffodus o fod wedi gallu penodi Cyfarwyddwr Clinigol newydd o Christies, sy'n fyd-enwog fel y gwyddoch, gan gyflwyno'r datblygiadau diweddaraf a fydd o fudd i gleifion a thîm clinigol yr ysbty.

Dros y 25 mlynedd ddiwethaf, mae gofal lliniarol wedi parhau i esblygu gan olygu bod angen moderneiddio'r adeilad presennol. Mae'r gwaith o foderneiddio'r cyfleusterau gwasanaethau dydd, y dderbynfa, y ganolfan adsefydlu ac adeiladu Atriwm Bradbury, bellach wedi'i orffen. Mae'r newidiadau wedi cael croeso brwd gan gleifion, staff a gwirfoddolwyr. Rhan olaf y gwaith moderneiddio fydd ailwampio'r Uned Cleifion Mewnol. Bydd yn cynnwys



buddsoddiad ariannol rhannol gan yr hospis ac mewn partneriaeth ag amrywiol ymddiriedolaethau elusennol. Bydd gan yr hospis wedyn gyfleusterau modern er mwyn gallu darparu'r gofal lliniarol gorau posib i'n cleifion ynghyd ag amgylchedd gweithio i staff a gwirfoddolwyr am y 25 mlynedd nesaf.

Roedd angen cyfleusterau parcio gwell oherwydd y newidiadau ac mae'r gwaith hwn bellach ar ben.

Cafodd ein dathliadau Pen-blwydd yn 25 oed eu gohirio unwaith eto ac, er bod Covid yn dal i fod gyda ni, ond wedi dofi cryn dipyn, gobeithiwn fod mewn sefyllfa i ddathlu 25 mlynedd o lwyddiannau'r hospis tuag at ddiwedd 2022.

Rwy'n falch o adrodd bod y trafodaethau parhaus gyda BCUHB yn argoeli'n addawol y cyrhaeddir cytundeb ariannu gwell tuag at ganol 2022. Ni fydd yn gyllid cyfartal i'r cyllid sy'n cael ei roi i hospisau De Cymru gan eu Byrddau Iechyd hwy, ond bydd yn gynydd i'n cyllid presennol ac mae hynny i'w groesawu.

Y flwyddyn nesaf, fel hospis annibynnol, byddwn yn parhau i ddibynnu ar gefnogaeth ein cymuned. Mae'r gefnogaeth honno wedi ein helpu i oroesi ein blynyddoedd anoddaf erioed ac rydym yn hynod ddiolchgar i bawb a weithiodd mor galed i sicrhau ein bod yma o hyd i ddarparu'r gofal a chymorth sydd taer ei angen ar ein cleifion.

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a Thîm Gweithredol yr hospis wedi cael blwyddyn arall anodd iawn yn sicrhau llywodraethu da a datblygiad strategol parhaus yr hospis. Hoffwn ddiolch iddynt am eu hymroddiad a'u cefnogaeth.

Ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, hoffwn ddiolch i'n staff, gwirfoddolwyr, cefnogwyr a'n busnesau lleol am eu hymdrechion a'u haelioni bendigedig. Mae'r gefnogaeth honno wedi sicrhau ein bod mewn sefyllfa dda ac y gallwn edrych ymlaen at barhau i ofalu am ein cleifion a chefnogi eu teuluoedd.

Eluned Griffiths, Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Y TU ÔLI BOB RHIF MAE 'NA STORI FYWYD GO IAWN

Mae ein gofal yn cael ei ddarparu gan dîm aml-ddisgyblaeth sy'n cynnwys nyrswys, meddygon, gweithwyr cymdeithasol, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol, caplaniaid, therapyddion amgen, gwirfoddolwyr a mwy – **sy'n gweithio gyda'i gilydd i helpu unigolion a'u hanwyliaid.**

Rhoddir ciplun isod o'r gwaith a wnaed gan ein tîm yn 2021.



158
O gleifion mewnol



371
Apwyntiad
Gwasanaeth Dydd



665
Apwyntiad Therapi
Amgen



303
Apwyntiad Claf
Allanol



84
Apwyntiad Methiant y
Galon fel Cleifion allanol



499
O sesiynau
Ffisiotherapi



415
O sesiynau Campfa



360
Apwyntiad Therapi
Galwedigaethol



65
O atgyfeiriadau
Cymorth Teulu i oedolion



143
O atgyfeiriadau
Cymorth Teulu i oedolion

Tŷ'R EOS

CYNLLUNIO AR GYFER Y DYFODOL

Cafodd y cyfleusterau yn Nhŷ'r Eos eu hadeiladu yn 1995, 26 mlynedd yn ôl, gan ddarparu gwasanaeth gofal lliniarol cyffredinol. Ar y pryd roeddent ymhlith y cyfleusterau gorau i ateb anghenion cleifion a'u teuluoedd.

Dros y blynyddoedd, mae ein gwasanaethau wedi datblygu ac mae'r hospis bellach yn unigryw o ran darparu gwasanaethau gofal lliniarol arbenigol i gleifion allanol yn ein dalgylch. Heb ein gwasanaethau parhaus a chynyddol, ni ellir ateb anghenion y cleifion hyn. Gyda mwy o alw o hyd am ein gwasanaethau, a chyfyngiadau'r cyfleusterau gwreiddiol, rydym yn moderneiddio'r adeiladau er mwyn gallu gofalu am fwy o deuluoedd yn yr amgylchedd gorau posib.

Mae'r gwaith moderneiddio'n digwydd mewn 4 cam, gyda'n cleifion a'u teuluoedd wrth galon y cynlluniau.

Cam 1 a 2

Gwasanaethau Dydd, Cymorth Teulu ac Adsefydlu

Dechreuodd Gam 1 gydag adleoli ac ailstrwythuro'r Gwasanaethau Dydd a'r Gwasanaethau Cymorth Teulu. Roedd hyn yn cynnwys creu ystafeloedd cymorth profedigaeth ac ymgynghori golau, agored a braf ynghyd â lolfa gleifion fendigedig ac ardal fwyta sy'n agor allan i'r gerddi hyfryd. Fel rhan o Gam 1 fe wnaethom hefyd foderneiddio'r dderbynfa, yr hyb cefnogwyr a'r siop anrhegion i greu amgylchedd perffaith i groesawu cleifion a'u teuluoedd.

Yna dechreuwyd ar Gam 2 gan greu ardal gymunedol braf newydd – Atriwm Bradbury, y cyfleusterau Adsefydlu diweddaraf, gan gynnwys campfa a chegin therapi galwedigaethol newydd. Achubwyd ar y cyfle hefyd i greu mynedfa ambiwlans newydd ar Grove Road fel bod cleifion yn gallu cyrraedd yr Uned Cleifion Mewnol yn fwy preifat a gweddus.

Dyddiad dechrau: 1 Mai 2019

Dyddiad gorffen: 17 Mehefin 2020



Cam 3

Maes Parcio Cleifion ac Ymwelwyr

Mae'r maes parcio newydd i gleifion ac ymwelwyr wedi'i adeiladu ar y tir gerllaw'r hospis i sicrhau, yn y dyfodol, y gallwn dderbyn mwy o gleifion ar ein safle ar hyd Ffordd Caer wrth i atgyfeiriadau i'r hospis barhau i gynyddu.

Dyddiad dechrau: 27 Medi 2021

Dyddiad gorffen disgwylidig: 31 Ionawr 2022

Cam 4

Uned Cleifion Mewnol

Y darn olaf yn y jigso a'r hyn sydd wrth galon yr hospis yw'r Uned Cleifion Mewnol sy'n rhoi cymorth i gleifion gyda rheoli symptomau, rheoli poen, seibiant meddygol a gofal diwedd bywyd. Er i bandemig Covid-19 efallai oedi ein cynlluniau i foderneiddio ac ailstrwythuro'r Uned Cleifion Mewnol, nid yw wedi atal ein cynlluniau cyffrous rhag symud ymlaen. Rydym wedi rhoi briff cychwynnol i gwmni penseiri lleol TACP sydd wrthi'n paratoi darluniau drafft. Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y gwaith yn dechrau erbyn Gwanwyn / Haf 2023 gan anelu at ei orffen o fewn 12 mis. Rydym eisiau sicrhau bod yr Uned yn cynnig y gofod a'r cyfleusterau gorau posib i'n cleifion a'u hanwyliaid am flynyddoedd i ddod.

Dyddiad dechrau disgwylidig:

Gwanwyn-Haf 2023

Dyddiad gorffen disgwylidig:

Gwanwyn-Haf 2024

Llun: Delwedd CAD o'n maes parcio newydd i gleifion ac ymwelwyr

Y TU ÔL I BOB RHIF MAE 'NA STORI FYWYD GO IAWN

GWENU UNWAITH ETO

Mae 'Gwasanaeth Cymorth Profedigaeth i Blant' Tŷ'r Eos yn cynnig cymorth emosiynol i blant cyn ac ar ôl colli rhywun agos iawn iddynt. Mae'r gwasanaeth yn cael ei ariannu gan BBC Plant mewn Angen, ac fe'i defnyddiwyd gan Annabelle a Megan, y ddwy'n naw oed, ar ôl colli aelodau teulu agos. Er bod y ddwy'n mynd i'r un ysgol, nid oeddent yn gwybod bod y naill a'r llall yn defnyddio'r gwasanaeth ar yr un pryd.

Roedd Gareth, 'dada' hoff Annabelle, wedi marw ym mis Ionawr yn 40 oed a bu'n derbyn cymorth gan yr hospis i'w helpu i ddod i delerau â'i farwolaeth. Roedd Megan hefyd wedi colli ei hen hen nain, 'Granny Halkyn', a nifer o ffrindiau a pherthnasau agos.

Mae eu cyfeillgarwch wedi mynd o nerth i nerth drwy rannu cwlwm cyffredin. Mae Annabelle a Megan wedi bod yn mwynhau sesiynau celf a chrefft er mwyn creu atgofion melys o'u hanwyliaid.

Meddai Annabelle: **"Hoff liw fy dada oedd oren felly mi wnes i galon oren a'i rhoi yn fy mlwch atgofion. Mae'r dream-catcher a wnes i'n hongian yn fy llofft. Mae'n hwyl gwneud y gweithgareddau hyn ac mae wedi fy helpu'n ofnadwy."**

Dyweddodd ei Mam, Ellen, fod ei merch yn ei chael yn anodd iawn ar y dechrau pan ofynnwyd iddi am ei cholled, ond mae'r sesiynau wedi gwneud gwahaniaeth aruthrol i Annabelle gan gynnig llwyth o dechnegau ymdopi i'w helpu i ymlacio ac esmwytho.

Teimlai rhieni Megan, Dafydd a Rebecca, y byddai eu merch yn elwa o gael cyfle i sgwrsio am ei phryderon a'i hofnau.

Meddai Megan: **"Dw i wrth fy modd yn dod i'r sesiynau yn yr hospis. Pan oeddwn yn creu fy mlwch atgofion a'r dream-catcher, roedd yn haws i mi sgwrsio am y pethau oedd yn fy mhoeni drwy wneud celf a chrefft ar yr un pryd."**

“ Mae plant a phobl ifanc yn aml yn cael trafferth ofnadwy gyda galar. Rydan ni'n gweithio gyda nhw i'w helpu i wybod sut i ymdopi er mwyn delio ag unrhyw bryderon ac ofnau, gan eu helpu i deimlo'n hapusach ac nad ydy pethau'n ormod iddynt. ”

Jackie Rowley


Tim Cymorth Teulu



Mae Megan ac Annabelle yn gwenu unwaith eto ar ôl elwa o wasanaeth profedigaeth yr hospis.




Y RHIFAU Y TU ÔL I'R STORI



INCWM YR HOSPIS £3.914M

- INCWM CODI ARIAN **55.5%***
- INCWM STATUDOL **16%**
- ELW'R LOTRI **14%**
- INCWM RHODDION EWYLLYS **14.5%**

*Mae Incwm Codi Arian yn cynnwys; Digwyddiadau codi arian, manwerthu ac arlwyyo. Mae hefyd yn cynnwys arian a dderbyniwyd drwy'r cynllun cynnal swyddi, cyllid Lywodraeth Cymru a thrwy gynllun cymorth brys Covid-19 yr awdurdodau lleol.



GWARIANT YR HOSPIS £3.457M

- CYMORTH TEULU AC I GLEIFION **86%**
- CODI ARIAN **14%**

BETH ALLWCH CHI EI WNEUD?

GWIRFODDOLI

Dibynnwn ar gefnogaeth gwirfoddolwyr i ddarparu'r gofal gorau posib i'n cleifion. Mae pob gwirfoddolwr gyda'r hospis yn credu yn y gwaith a wnawn ac yn teimlo'n gryf am yr effaith y mae'n ei gael ar fywydau ein cleifion a'u teuluoedd.

LOTRI'R HOSPIS

Bydd ymuno â'n loteri am ddim ond £1 yr wythnos yn gwneud gwahaniaeth. Eleni llwyddodd ein loteri i wneud elw o £529,324 a defnyddiwyd y cwbl i gefnogi gwasanaethau cleifion, gan ariannu'r hospis am 56 diwrnod.

Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar gyfrifon rheoli Tŷ'r Eos ar 31/12/21. Am y cyfrifon cyfunol, ewch i wefan Tŷ'r Cwmniau.